
Llinellau busnes BBC Studios

Aseiad o newidiadau BBC Studios i'w llinellau busnes

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ebrill 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae'r datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau mewn perthynas â newidiadau BBC Studios i'w linellau busnes a'r broses ar gyfer hysbysu newidiadau yn y dyfodol fel a nodir yn y gofynion masnachu a gwahanu.

Mae'r BBC yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol i gynhyrchu elw, a all gael ei ail-fuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau'r BBC ac ategu incwm o'r ffi trwydded. Mae angen i'r gweithgareddau hyn ymaddasu i'r amgylchedd newidiol ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi. Ein rôl fel rheoleiddiwr yw sicrhau nad yw'r berthynas rhwng y rhan o Wasanaeth Cyhoeddus y BBC (y Gwasanaeth Cyhoeddus) a ariennir gan y ffi trwydded â'r gweithgareddau masnachol yn aflunio'r farchnad nac yn creu anfantais cystadleuol annheg. Gan hynny, rydym wedi gosod nifer o ofynion masnachu a gwahanu ar y BBC (y gofynion) i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.¹ Rydym yn cefnogi'r angen i'r BBC arloesi, tyfu a newid cyn belled ag y gwneir hyn mewn ffordd deg.

Mae BBC Studios yn cynhyrchu ac yn dosbarthu cynnwys, yn berchen ar ac yn gweithredu sianeli (e.e. UKTV), mae ganddo wasanaeth fideo ar-alw tanysgrifio rhyngwladol fel menter ar y cyd (BritBox mewn gwledydd fel UDA, Canada ac Awstralia), mae'n gwerthu fformatau rhaglenni a nwyddau defnyddwyr fel DVDs a marsiandïaeth.

Mae'r gofynion yn nodi bod yn rhaid i'r BBC ennill cyfraddau elw masnachol ar gyfer ei is-gwmnïau a llinellau busnes masnachol. Mae angen iddo bennu llinellau busnes sy'n briodol hefyd. Yn 2019, penderfynodd BBC Studios i leihau ei linellau busnes o bump i ddau ac, yn benodol, i gyfuno'r gweithgareddau cynhyrchu a dosbarthu mewn llinell fusnes unigol. Mae'r datganiad hwn yn asesu'r newidiadau hyn i linellau busnes BBC Studios fel rhan o raglen waith ehangach i adolygu'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a'r Gwasanaeth Cyhoeddus (Adolygiad o BBC Studios).² Mae'n disgrifio proses newydd ar gyfer hysbysu newidiadau i'r llinellau busnes gan y BBC yn y dyfodol.

Ein canfyddiadau – yn gryno:

Rydym yn ystyried bod newidiadau BBC Studios i'w linellau busnes yn briodol

Rydym yn fodlon bod cwmnïau cynhyrchu sy'n debyg i BBC Studios o ran maint a chwmpas fel arfer yn cynnwys cangen ddsbarthu integredig. Mae hyn wedi mynd yn bwysicach wrth i gynhyrchwyr a dosbarthwyr gael eu disgwyl i helpu ariannu costau gwneud rhaglenni. Gan hynny, rydym yn ystyried bod newidiadau BBC Studios i'w linellau busnes yn briodol ac y byddant yn galluogi'r BBC i feincodi ei weithgareddau cynhyrchu a dosbarthu gyda chystadleuwyr o faint a chwmpas tebyg, yn unol â'n gofynion. Yn unol â hynny, byddwn yn parhau i fonitro cyfradd elw BBC Studios ar lefel y llinell fusnes newydd/cyfunedig.

Rydym yn cydnabod bod y berthynas rhwng y llinellau busnes cynhyrchu a dosbarthu cyfunedig a'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn gymhleth ac felly byddwn yn ymgymryd â gwaith pellach i ddeall sut

¹ [Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: gofynion ac arweiniad](#), 11 Chwefror 2019.

² [Adolygiad o ryngweithio rhwng BBC Studios a'r Gwasanaeth Cyhoeddus: Cais am Dystiolaeth](#), 9 Hydref 2020.

mae'r berthynas hon yn gweithio, a sut y gallai effeithio ar gyfradd elw BBC Studios, fel rhan o'r Adolygiad o BBC Studios. Gan hynny, ar hyn o bryd nid ydym yn bwrw 'mlaen â'n cynnig i fynnu y darperir adroddiadau ychwanegol ar weithgareddau cynhyrchu BBC Studios i Ofcom.

Yr hyn rydym yn ei wneud – yn gryno:

Rydym yn gwneud newid i'r broses y mae'n rhaid i'r BBC ei dilyn wrth hysbysu newidiadau i'r linellau busnes yn y dyfodol

O ystyried y newidiadau sylweddol y mae BBC Studios wedi'u gwneud i'w linellau busnes ers iddo gael ei sefydlu yn 2017, rydym hefyd yn pennu newid i'r gofynion. O hyn ymlaen bydd yn ofynnol i'r BBC roi tri mis o rybudd i Ofcom am unrhyw newidiadau yn y dyfodol i gyfansoddiad presennol ei is-gwmnïau masnachol a'r llinellau busnes o fewn yr is-gwmnïau hynny. ³ Os ystyriwn fod newidiadau y BBC yn anghydawns â'r gofynion, Siarter y BBC neu Gytundeb Fframwaith y BBC, byddai modd, yn amodol ar ymgynghori, i ni gamu i mewn i'w hatal.

³Gellir byrhau'r cyfnod hwn gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig gan Ofcom.